# Rheoli prosiectau yn y diwydiannau creadigol

## Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymwneud â datblygu a chytuno ar baramedrau prosiect a monitro a rheoli gwaith er mwyn sicrhau caiff allbynnau creadigol dymunol o ansawdd priodol eu cyflawni a hynny gan gadw at y cyfyngiadau o ran y gyllideb ac adnoddau.

Mae’n ymwneud â blaenoriaethu gweithgareddau, arwain pobl eraill, cynllunio wrth gefn ac ymateb i newidiadau.

Gellir defnyddio’r safon hon ynghlwm â phob rôl yn y diwydiannau sgrin ac mae hefyd yn berthnasol i rolau diwydiant creadigol ehangach fel enghraifft theatr, digwyddiadau byw, treftadaeth ddiwylliannol a galwedigaethau dylunio.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. adnabod y disgwyliadau o ran ansawdd ac egluro unrhyw amwysedd ar gyfer allbynnau creadigol
2. nodi'r cyllidebau, y graddfeydd amser a'r adnoddau ar gyfer y prosiect
3. amcan y cyfarpar, y deunyddiau a'r bobl sydd eu hangen i fodloni galwadau creadigol a thechnegol y prosiect
4. nodi cerrig milltir allweddol a chynllunio sut i'w cyflawni
5. caffael pobl gyda'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer y gwaith
6. cyflwyno cynlluniau a cheisio adborth gan y bobl sydd ynghlwm
7. cadarnhau a chytuno ar y trefniadau ar gyfer ymdrin â threuliau annisgwyl
8. defnyddio gwybodaeth i gymharu cynnydd yn erbyn cynlluniau ac amserlenni
9. monitro'r gweithgareddau a'r cynnydd i helpu adnabod unrhyw wyriadau oddi wrth y cynlluniau gwreiddiol
10. rhannu'r newidiadau i gynlluniau sydd wedi'u cytuno arnyn nhw'n flaenorol yn ôl yr angen
11. awgrymu a chytuno ar ddatrysiadau, pan fo gwyriadau oddi wrth yr amserlen a'r cynlluniau

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i gael gwybod am ofynion gan gynnwys newidiadau i gynlluniau blaenorol
2. y dulliau o sicrhau ansawdd a beth sydd ei angen ar gyfer y prosiect
3. rolau a chyfrifoldebau'r bobl sydd ynghlwm â phwy sy'n gwneud penderfyniadau
4. pwysigrwydd deall cyd-ddibyniaethau a gwella ansawdd deialog cynnar
5. yr wybodaeth sydd ei hangen gan wahanol bobl yn ystod pob cam
6. y cyfarpar sydd ei angen ac unrhyw ofynion penodol sy'n ymwneud ag o
7. y meini prawf a'r dulliau ar gyfer asesu nifer a manylion y deunyddiau
8. y ffyrdd o werthuso perfformiad y deunyddiau a'r cyfarpar
9. sut a phryd i adnabod sgiliau, cyfarpar neu ddeunyddiau arbenigol a ble i'w caffael
10. y gofynion cytundebu ac yswiriant ar gyfer y gwaith a'r prosesau i'w dilyn
11. y ffynonellau gwybodaeth ynghylch cynnydd
12. sut i fonitro a gwirio'r gweithgareddau a'r cynnydd
13. y ffyrdd o ddod i gytundeb ynghylch y rolau a'r cyfrifoldebau
14. sut i adnabod gwyriadau gwirioneddol a phosibl oddi wrth yr amserlenni a'r cynlluniau
15. pryd i gymryd yr awenau gan eraill er mwyn datrys unrhyw broblemau
16. y dulliau cyfathrebu
17. y mathau o ddigwyddiadau annisgwyl allai godi a'r ffyrdd o fynd i'r afael â nhw
18. sut i adnabod a gwerthuso buddion ac anfanteision gwahanol ffyrdd o leihau costau ac arbed amser
19. yr achosion cyffredin o oedi a sut gellir osgoi neu ymdrin â'r rhain
20. y prosesau a'r ffurfiau disgwyliedig ar gyfer cyflwyno gwybodaeth a'u rhyngwyneb gyda rhaglenni safon diwydiant
21. y ddeddfwriaeth a'r rheoliadau gan gynnwys cyflogaeth, iechyd a diogelwch, hawliau eiddo deallusol ac ymwadiadau a hawliau moesegol

SKSCMGS7

Rheoli prosiectau yn y diwydiannau creadigol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Fersiwn rhif** | 3 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Maw 2024 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Maw 2024 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | ScreenSkills |
| **RCU gwreiddiol** | SKSGS7 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Y Cyfryngau a Chyhoeddi, Gweithwyr Proffesiynol Cynhyrchu Sain (Ffilm a Theledu), Gweithwyr proffesiynol ôl-gynhyrchu, Y Celfyddydau, Gweithwyr Proffesiynol Animeiddio, Y Cyfryngau a chyfathrebu, Crefftau, y celfyddydau creadigol a dylunio, Y Celfyddydau Perfformio, Gweithwyr Proffesiynol Cyswllt y Cyfryngau, Gweithwyr Proffesiynol Gemau, Gweithwyr Proffesiynol Cyfryngau Rhyngweithiol, Galwedigaethau Marchnata Digidol, Gweithwyr Proffesiynol Cyswllt Marchnata, Gweithwyr Proffesiynol Cyswllt Dylunio;, Gwasanaethau Technegol a Dosbarthu (Ffilm a Theledu), Gweithwyr Proffesiynol Effeithiau Arbennig Corfforol, Rolau Cymorth Technegol ar gyfer Recordio Sain a Thechnoleg Cerddoriaeth |
| **Cyfres/Set** | Sgiliau Cyffredinol y Cyfryngau Creadigol |
| **Geiriau Allweddol** | rheoli prosiectau; graddfeydd amser; adnoddau; treuliau annisgwyl; cytundebau; cyd-ddibyniaethau; diwydiannau creadigol; |